# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 1af o Rhagfyr 2015
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Ada Evans, Meirion Davies, , Dylan Edwards, Caredig Jones, Rowland Jones Meic Francis, John Davies a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU: Cyng. Richard Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod diwethaf 2015 gan y Cadeirydd Ann Tudor.

**15/881**
Darllenwyd cofnodion cyfarfod Miss Tachwedd gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Rowland Jones.

**15/882 - MATERION YN CODI**

1. Darllenwyd Cofnodion o'r cyfarfod ar y 27 Tachwedd gyda Alex Glanville ynglŷn â'r Glebe Land. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at Mr Glanville i roi diolch.
2. Unwaith eto, ni does unrhyw ymateb wedi eu derbyn oddi wrth Adran Priffyrdd Cyngor Ceredigion ynglŷn â'r dŵr wrth ymyl cornel Gwel Y Môr. Ond, fe wnaeth aelod o'r cyngor cadarnhau nad oes dwr wedi bod yn crynhoi yna dros yr wythnos diwethaf.
3. Roedd noswaith goleuo'r goeden wedi bod yn noswaith arbennig er gwaethaf y tywydd. Diolchwyd i bawb a wnaeth helpu rhoi'r goeden yn eu lle a hefyd i Tom Edwards am osod y goleuadau eleni eto. Rhaid dweud roedd yn edrych yn fendigedig. Rhoddwyd diolch i Ada Evans am drefnu'r lluniaeth ac addurniadau. Hefyd rhoddwyd diolch i'r Falcon Inn am roi benthyg y chwaraewr ddisg a'r Megaphone. Yn olaf, rhoddwyd diolch i Sion Corn am ddod i weld y plant ar adeg prysur iawn o'r flwyddyn!
4. Ar y pwnc, Toiledau Cyhoeddus, ar ôl drafod y posibilrwydd o agor toiledau'r ystafelloedd newid i'r cyhoedd, fe wnaeth y Cyngor Datblygu cynghori nad oeddent am gyd-fynd a darparu toiledau ar gyfer hyn. Rhoddwyd eu rhesymau am y penderfyniad i'r Cyngor Cymuned. Awgrymwyd efallai bydd yn syniad i leoli porter-loo yn y Station Yard, nid oedd y cynghorwyr yn weld hyn yn opsiwn.
5. Unwaith eto, tynnwyd sylw'r Cyngor gan aelod o'r cyhoedd, bod y goleuadau ar waelod stad Tai Gwarfelin yn wael iawn. Fe ddwedwyd y Clerc for ymateb wedi eu derbyn wrth Neil Moffatt Tai Ceredigion. Maent yn edrych ar opsiynau gwahanol i geisio datrys y sefyllfa yma. Gofynnwyd I'r clerc ysgrifennu yn ôl ato i ofyn iddo roi blaenoriaeth i hyn, yn anffodus wnaeth aelod o'r gymuned cael niwed wrth gwympo yn y tywyllwch.
6. Mae'r twll wrth ymyl Glanmad wedi eu trwsio.

**15/883 - LLYTHYRON**

1. Ymateb wrth y Cyngor Sir ynglŷn â'r cais am 'Illuminated Speed Signs'. Yn anffodus nid ydynt yn gallu helpu gyda chais yma
2. Diweddariad rhaglen Moderneiddio Gofal Preswyl Ceredigion.
3. Gwahoddiad wrth Ysgol Henry Richards i'r prynhawn gwobrwyo ar Ddydd Mercher 16 Rhagfyr.
4. Wybodaeth ynglŷn â Banc Poteli'r Pentref….Cynllun Banciau Ailgylchu Gwledig.
5. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis…. Pension Rules, Sustainability training, Alotments, Penodi Cadeirydd, Green Growth Wales a.y.b. Rhoddwy ddiolch i'r Cyng.Meic Francis am drafod cynnwys rhain.

**15/884 – ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Rhagfyr; £113.47. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Dewi Rattray ac eiliwyd gan y Cyng Richard Davies.
2. Invoice ar gyfer ddefnyddio'r Neuadd. Cynigwydd i'w dalu gan y Cyng.Caredig Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ada Evans.
3. Itemau lluniaeth ar gyfer Noson Goleuo'r Goeden….Itemau a brynwyd o Siop y Bont ac Poundland. Cyfanswm o £96.25. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray.
4. Invoice wrth Dan Owens ar gyfer torri'r fynwent. Cyfanswm hyn yw £1135.00. Cynigwyd I'w talu gan y Cyng.Caredig Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng.Meirion Davies.
5. Taliad o £31.90 i'r Falcon Inn Llanilar, yn cynrychioli'r 2 x prydau canmoliaethus.

**15/885 – CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau newydd.

**15/886 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Rhoddwyd diolch gan y Cadeirydd Ann Tudor i Rowland Jones am drefnu Gwasanaeth Sul y Cofion. Hefyd fe roddwyd diolch i Chris Leadbetter-Jones am chwarae'r Trumpet yn ystod y gwasanaeth.
2. Diolchwyd i'r clerc am drefnu'r cinio Nadolig.
3. Gofynnwyd i'r Cyngor llanw'r cais am y Difib ar ran y FUGS. Phasiwyd i'r cadeirydd a'r clerc wneud ymchwiliadau ynglŷn â hyn.
4. Awgrymwyd efallai fydd yn syniad defnyddio rhodd Chris Brown tuag at CCTV at gyfer yr hen ysgol. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn fydd hyn yn syniad da. Phasiwyd i'r Cyng. Dylan Edwards a Cyng. Caredig Jones i edrych i mewn i gost hyn yn bellach.
5. Fe wnaeth y Cyng. Dylan Edwards dwyn i sylw'r cyngor bod llawer o geir yr ysgol/cylch meithrin yn parcio ar stad Dol Ystwyth yn ystod y Dydd. Yn anffodus, mae hyn yn achosi anhawster parcio i drigolion y Stad. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at yr Ysgol er mwyn codi hyn.
6. Dwedwyd y Cyng. John Davies, fod llawer o Ddwr ar hewl Abermad. Ma hyn yn achosi perig i fodurwyr. Phasiwyd I'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir ynglŷn â hyn.

Gorffennwyd y cyfarfod am 9.35yh